

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Arolygon gwirio gwefannau: Sefydliadau sy'n gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg



Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
2	Methodoleg	2
3	Canfyddiadau	3
4	Tueddiadau	5
5	Casgliad ac argymhellion	8
	Atodiadau	10

1 Cyflwyniad

- 1.1 Eleni, rydym wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau'r Cynllun Strategol a'r Deilliannau Rheoleiddio a gyhoeddwyd yn 2024-2025.
- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, buom yn ystyried pa newidiadau a dulliau amgen oedd eu hangen i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth mewn modd mwy rhagweithiol.
- 1.3 Roeddem yn awyddus i ddatblygu dulliau monitro a hyrwyddo a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau. Penderfynwyd cynllunio arolygon gwirio i'w cynnal yn chwarterol, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau unigol o fewn yr un chwarter.
- 1.4 Un o fanteision allweddol y dull hwn o fonitro yw bod sefydliadau'n cael gwybod am unrhyw faterion cydymffurfiaeth mewn modd amserol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle iddynt weithredu atebion priodol yn brydlon.
- 1.5 Mae gwefannau wedi'u nodi fel maes blaenoriaeth ar gyfer sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg eleni. Daw hyn yn sgil y ffaith mai gwefannau yw un o'r prif ddulliau o ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau i'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae arolygon blaenorol gan y Comisiynydd dros y pedair mlynedd diwethaf wedi dangos, er bod peth gwelliant o ran cydymffurfiaeth, mai tua 50% o dudalennau gwefannau sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg oedd yn cydymffurfio a gofynion y cynlluniau hynny.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygon gwirio a gynhaliwyd â sefydliadau sydd yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg, gan gyflwyno argymhellion i chi eu hystyried i sicrhau gwell cydymffurfiaeth o fewn eich sefydliad chi. Er inni gynnal yr arolwg gyda sampl o'r sefydliadau yn unig, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn ynghyd â'r argymhellion yn berthnasol i'r holl sefydliadau sydd yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg.

2 Methodoleg

- 2.1 Arolygwyd gwefannau 21 o sefydliadau yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 2025. Roedd y sefydliadau hyn yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg ac wedi'u hadnabod gan y Comisiynydd fel rhai blaenoriaeth uchel neu ganolog at ddibenion monitro.
- 2.2 Gwiriwyd gwefannau'r sefydliadau gan ddechrau gyda'r Hafan, ac yna archwilio hyd at 14 o dudalennau ychwanegol ar hap o bob gwefan.
- 2.3 Yn ystod y cyfnod arolygu, gwiriwyd cyfanswm o 304 o dudalennau gwe, gan asesu:
 - a oedd y dudalen ar gael yn Gymraeg?
 - a oedd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ar y dudalen?
 - a oedd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ar yr Hafan?
 - a oedd hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar draws y tudalennau?
 - a oedd dolenni ar y tudalennau'n arwain y defnyddiwr at wybodaeth yn Gymraeg?

3 Canfyddiadau

- 3.1 Roedd gan 18 o'r sefydliadau a arolygwyd gymalau penodol yn ymwneud â gwefannau yn eu cynlluniau iaith. Mae rhai o'r cynlluniau iaith hyn wedi'u diwygio yn gymharol ddiweddar, gyda thargedau penodol wedi eu cynnwys yn y cynlluniau gweithredu i gynyddu faint a chwmpas y cynnwys Cymraeg ar wefannau'r sefydliadau dros gyfnod y cynllun presennol.
- 3.2 Nid oedd gan y tri sefydliad arall gymalau penodol yn ymwneud â gwefannau yn eu cynlluniau iaith.
- 3.3 Mae rhai cynlluniau iaith yn cadarnhau y bydd sefydliadau'n defnyddio systemau sgorio neu feini prawf blaenoriaethu er mwyn penderfynu pa gynnwys fydd ar gael yn Gymraeg. Mae cynlluniau iaith eraill yn nodi y bydd adran neu dudalen benodol ar y wefan yn ymwneud a'r Gymraeg ac yn darparu cynnwys Cymraeg.
- 3.4 Oherwydd bod cynnwys ac ymrwymadau'r cynlluniau iaith yn amrywio rhwng sefydliadau, nid yw canfyddiadau'r arolygon hyn o reidrwydd yn adlewyrchu lefel y cydymffurfiaeth â'r ymrwymadau hynny. Yn hytrach, maent yn adlewyrchu profiad y defnyddiwr wrth geisio cyrchu gwybodaeth a gwasanaethau Cymraeg ar wefannau'r sefydliadau.
- 3.5 Roedd gwefannau 13 o'r sefydliadau a arolygwyd (62%) wedi'u lletya ar blatfform gwefan GOV.UK. Mae'r sefydliadau hyn yn cyfrif am 193 o'r tudalennau a wiriwyd fel rhan o'r arolwg. Roedd gan yr wyth sefydliad arall (38%) wefannau annibynnol eu hunain, gyda 111 o dudalennau'n cael eu harolygu.

Tudalen gwefan ar gael yn Gymraeg

- 3.6 O'r 304 o dudalennau a arolygwyd, roedd 210 ohonynt (69%) ar gael yn Gymraeg. O ran y sefydliadau â'u gwefannau ar blatfform GOV.UK, roedd 154 ar gael yn Gymraeg (80%). Mewn cyferbyniad, dim ond 56 o dudalennau oedd ar gael yn Gymraeg (50%) ar wefannau annibynnol y sefydliadau.

Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar dudalennau gwe

- 3.7 Er bod cynnydd yn y nifer a'r ganran o dudalennau ar gael yn Gymraeg o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol (54% yn 2023/24 a 50% yn 2024/25), mae'r arolwg hwn wedi dangos bod y ganran yn gostwng wrth asesu a yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg. O'r 210 o dudalennau oedd ar gael yn Gymraeg, dim ond 121 o'r rheini (58%) oedd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae hyn yn golygu nad oedd y Gymraeg wedi ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg ar 42% o'r tudalennau lle'r oedd fersiwn Gymraeg ar gael.
- 3.8 Wrth ystyried y math o blatfform, roedd 87 o dudalennau ar GOV.UK (56%) yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan olygu bod 44% o'r tudalennau hynny wedi methu â sicrhau triniaeth gyfartal. Yn achos y gwefannau annibynnol, 34 tudalen (61%) oedd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- 3.9 Y prif resymau dros fethu â thrin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg oedd bod rhai tudalennau'n uniaith Saesneg, neu fod dolenni ar dudalennau Cymraeg yn mynd at wybodaeth Saesneg. Roedd rhai achosion hefyd o gynnwys ategol – megis fideos,

atodiadau, dogfennau a ffurflenni – ar gael yn Saesneg yn unig, gan danseilio'r profiad Cymraeg i'r defnyddiwr.

Hafan y wefan yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal


- 3.10 O'r 21 gwefan a arolygwyd, dim ond dwy dudalen hafan oedd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Roedd y ddwy wefan yn perthyn i sefydliadau â gwefannau annibynnol.
- 3.11 Nid oedd yr 19 tudalen hafan arall yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Roedd amrywiaeth sylweddol yn yr hyn a welwyd, gyda 12 o'r tudalennau a llawer o gynnwys Cymraeg. Fodd bynnag, roedd peth cynnwys Saesneg ar y tudalennau hynny'n golygu nad oedd y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Nodwyd bod 11 o'r 12 tudalen hafan oedd a llawer o gynnwys Cymraeg ar GOV.UK, gyda'r llall ar wefan annibynnol.
- 3.12 Roedd gan y saith sefydliad arall dudalennau hafan uniaith Saesneg, gyda dau ar GOV.UK a'r pump arall ar wefannau annibynnol.
- 3.13 Y prif reswm pam nad oedd tudalennau hafan ar GOV.UK yn trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg oedd bod llawer o'r wybodaeth yn yr adrannau 'Y diweddaraf gennym' a 'Dogfennau' yn uniaith Saesneg.



Hunaniaeth gorfforaethol yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal

- 3.14 O'r 304 tudalen gwefan a arolygwyd, dim ond 96 ohonynt (31%) oedd â hunaniaeth gorfforaethol (boed hynny'n logo neu enw'r sefydliad) oedd yn trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg.
- 3.15 Roedd 81 tudalen arall (27%) o'r rhai a arolygwyd ar GOV.UK heb unrhyw hunaniaeth gorfforaethol o gwbl. Mae hyn o bosib yn wendid o ran GOV.UK, gan fod cymaint o dudalennau, o fewn sampl gymharol fach, heb unrhyw elfen adnabod sefydliadol. Mae'n bosibl y gall hyn greu ansicrwydd i ddefnyddwyr, beth bynnag fo'u hiaith, os nad yw'n glir eu bod yn parhau ar wefan yr un sefydliad, neu os ydynt wedi symud i gynnwys sefydliad arall o fewn GOV.UK heb fod hynny'n amlwg iddynt.

3.16 O ganlyniad, roedd 127 o'r holl dudalennau a arolygwyd (42%) wedi methu â thrin y Gymraeg yn gyfartal a'r Saesneg o ran hunaniaeth gorfforaethol. Y prif reswm am hyn oedd bod logo neu enw'r sefydliad yn uniaith Saesneg.



Dolenni ar y dudalen yn mynd a'r defnyddiwr at wybodaeth yn Gymraeg

3.17 Mae sicrhau dilyniant ieithyddol wrth i ddefnyddwyr gyrchu tudalennau a gwybodaeth ar wefannau yn allweddol bwysig er mwyn sicrhau profiad cyflawn cyfrwng Cymraeg. I'r perwyl hwn, gwiriwyd os oedd dolenni ar dudalennau'n arwain defnyddwyr at wybodaeth yn Gymraeg. Gwelwyd fod 104 o'r tudalennau a arolygwyd (34%) yn cynnwys dolenni oedd yn arwain y defnyddiwr at wybodaeth yn Gymraeg. Roedd 57 tudalen pellach (19%) yn cynnwys cymysgedd o ddolenni, gyda rhai yn arwain at wybodaeth yn Gymraeg ac eraill at wybodaeth yn Saesneg.

3.18 Golyga hyn bod 120 o'r tudalennau a arolygwyd yn cynnwys dolenni a oedd yn arwain at wybodaeth uniaith Saesneg. Yn ogystal, nid oedd gan 23 o'r tudalennau unrhyw ddolenni arnynt.

4 Tueddiadau

4.1 Mae canfyddiadau arolygon blaenorol y Comisiynydd, rhwng 2021/22 a 2024/25, wedi dangos bod lefelau cydymffurfiaeth gwefannau wedi aros yn gymharol gyson, ar oddeutu 50%. Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r ganran o dudalennau gwefannau oedd yn cydymffurfio â gofynion cynlluniau iaith Gymraeg dros y pedair blynedd ddiwethaf.

2021/22	2022/23	2023/24	2024/25
52%	37%	54%	50%

4.2 Fel y nodwyd eisoes, mae cynnwys ac ymrwymïadau'r 21 cynllun iaith a arolygwyd yn amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau. Nid oes gan dri o'r sefydliadau gymal penodol yn ymwneud â gwefannau o fewn eu cynlluniau iaith. Er bod nifer cymharol uchel o dudalennau ar gael yn Gymraeg, mae'r ffigyrau yn gostwng yn sylweddol

wrth asesu a yw'r tudalennau hynny'n trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'n ymddangos felly bod problem systemig o ran sicrhau cysondeb mewn gwasanaethau a thudalennau Cymraeg. Gall hyn arwain at ddiffyg hyder gan siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaeth neu wefan hwnnw yn Gymraeg, ac o bosibl gwefannau Cymraeg yn ehangach.

- 4.3 Gwelwyd mai gwefannau'r Asiantaeth Safonau Bwyd â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau oedd yn cynnig y gwasanaeth mwyaf cyflawn yn Gymraeg. Roedd pob tudalen a arolygwyd gan y ddau sefydliad ar gael yn Gymraeg, ac roedd y Gymraeg wedi ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg ar bob tudalen, gan gynnwys y dudalen hafan. Gwelwyd hefyd bod eu hunaniaeth gorfforaethol yn trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg, ac roedd pob doler ar y tudalennau a arolygwyd yn arwain at wybodaeth Gymraeg. Dylid nodi bod y ddau sefydliad yma'n cynnal gwefannau annibynnol eu hunain.
- 4.4 Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau wedi ychwanegu'r logo 'Iaith Gwaith' wrth ymyl y ddolen 'Cymraeg' ar ei brif wefan, yn ogystal ag ar yr is-wefan Helpwr Arian. Canlyniad hyn yw bod y ddolen 'Cymraeg' bellach yn fwy gweledol gan fod y logo 'Iaith Gwaith' yn cael ei adnabod yn eang.
- [Money and Pensions Service](#)
[MoneyHelper](#)

Sefydliadau â'u gwefannau ar GOV.UK

- 4.5 Mae adroddiad diweddaraf y Comisiynydd ar berfformiad sefydliadau, [Grymuso'r Gymraeg drwy lywodraethiant cadarn](#), yn cadarnhau bod sawl sefydliad sydd a'u gwefan ar GOV.UK wedi nodi bod sicrhau cynnwys Cymraeg sy'n hygyrch ac yn gyfartal â'r cynnwys Saesneg yn parhau i fod yn her sylweddol. Er bod gwelliannau wedi bod yn nifer a maint y cynnwys Cymraeg ar GOV.UK, mae'r gwaith arolygu diweddar yn cadarnhau bod yr her hon yn parhau.
- 4.6 Ymhlith y sefydliadau â'u gwefannau ar GOV.UK, yr Adran Gwaith a Phensiynau berfformiodd orau, gyda 15 tudalen ar gael yn Gymraeg, a 14 o'r rheiny'n trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Roedd nifer o sefydliadau eraill, gan gynnwys yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, Cofrestrfa Tir EF, Cyllid a Thollau EF, Swyddfa Cymru a'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus, hefyd â nifer uchel o dudalennau ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn dangos y gwaith sydd wedi ei wneud gan sefydliadau yn ystod y cyfnod diweddar i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ar eu gwefannau.
- 4.7 Serch hynny, gwelwyd bod nifer o sefydliadau â'u gwefannau ar GOV.UK â chanran uchel o dudalennau ar gael yn Gymraeg, ond bod y ganran honno'n gostwng yn sylweddol wrth ystyried a yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg. Mae'r Comisiynydd yn ymwybodol bod nifer o'r sefydliadau hyn wedi sicrhau mynediad uniongyrchol i'r platfform er mwyn gallu ychwanegu ac addasu eu cynnwys Cymraeg. Mae rhai tudalennau, fodd bynnag, tu hwnt i reolaeth y sefydliadau unigol ac yn gyfrifoldeb i Adran Digidol y Llywodraeth (GDS).
- 4.8 O ran tudalennau hafan ar GOV.UK, er bod opsiwn dewis iaith ar nifer o'r tudalennau, roedd y wybodaeth a'r dolenni yn yr adrannau 'Y diweddaraf gennym' a 'Dogfennau' yn uniaith Saesneg. Mae'n bosib y gall hyn greu'r argraff i ddefnyddwyr Cymraeg nad yw'r fersiwn Gymraeg o'r wybodaeth ar y wefan mor gyfredol â'r fersiwn Saesneg. Gall hyn, yn ei dro, arwain at ddefnyddwyr Cymraeg yn troi at y fersiwn Saesneg.

4.9 Mae nifer o'r dolenni ar dudalennau Cymraeg yn arwain y defnyddiwr at destun Saesneg, er bod fersiwn Gymraeg o'r testun ar gael mewn sawl achos drwy glicio ar ddolen bellach. Dylai sefydliadau sicrhau, lle bo fersiwn Gymraeg o gynnwys yn bodoli, fod dolenni ar dudalennau Cymraeg yn arwain yn uniongyrchol at y cynnwys hwnnw.

5 Casgliadau ac argymhellion

- 5.1 Mae'r canlyniadau'n amrywio'n sylweddol ar draws y gwahanol wefannau. Mae rhai sefydliadau'n perfformio'n dda, tra bod eraill â nifer o dudalennau Cymraeg ond gyda diffygion penodol sy'n golygu nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg ym mhob achos. Byddai goresgyn y problemau hyn yn arwain at welliant sylweddol ym mhrofiad a taith y defnyddiwr Cymraeg wrth ddefnyddio'r gwefannau hyn.
- 5.2 Mae'n ymddangos fod llawer o gynnwys Cymraeg wedi'i ychwanegu at wahanol wefannau yn ddiweddar. Er y cynnydd yma, mae angen i sefydliadau sicrhau bod y cynnwys hwnnw'n cael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n sicrhau dilyniant ieithyddol clir a rhwydd i'r defnyddiwr Cymraeg.
- 5.3 Mae'r Comisiynydd yn ymwybodol bod rhai cyfyngiadau i blatfform GOV.UK sy'n golygu nad yw'n bosib i rai gwefannau fod yn gwbl ddwyieithog ar hyn o bryd. Bydd y Comisiynydd yn parhau i weithio gyda Adran Ddigidol Llywodraeth y DU er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r cyfyngiadau yma.
- 5.4 Ar sail canfyddiadau'r arolwg, rydym yn cyflwyno'r argymhellion isod i'r sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg:

Argymhelliad 1: Hunaniaeth gorfforaethol

Dylai sefydliadau gynnal awdit cynhwysfawr o'u tudalennau gwefan er mwyn sicrhau bod hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan gynnwys logos ac enw'r sefydliad. Lle nad oes logo nac enw'r sefydliad yn bresennol ar dudalen ar hyn o bryd, dylai sefydliadau gymryd camau i sicrhau bod elfen briodol o hunaniaeth gorfforaethol yn cael ei chynnwys yn yr iaith berthnasol.

Argymhelliad 2: Dolenni ar dudalennau Cymraeg

Fel rhan o'r awdit uchod, dylai sefydliadau hefyd wirio bod dolenni ar dudalennau Cymraeg yn arwain defnyddwyr at wybodaeth neu wasanaethau Cymraeg, lle bo'r cynnwys hwnnw ar gael. Dylid hefyd sicrhau bod unrhyw dudalennau newydd sy'n cael eu creu yn Gymraeg, ac sy'n cynnwys dolenni, yn arwain defnyddwyr at wybodaeth yn Gymraeg.

Argymhelliad 3: GOV.UK ac Adran Ddigidol Llywodraeth y DU

Mae angen i Adran Ddigidol Llywodraeth y DU (GDS) weithio â'r sefydliadau perthnasol, sydd yn gweithredu cynllun iaith Gymraeg a gyda'u gwefan ar GOV.UK, er mwyn nodi a mynd i'r afael â'r prif rwystrau i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog ar y platfform. Dylai'r gwaith cydweithredol hwn gynnwys ystyriaeth benodol o faterion megis sicrhau bod lleoliad y ddolen 'Rhestr o wasanaethau Cymraeg' ar hafan GOV.UK mewn man amlwg, a sicrhau bod y dewis iaith yn cael ei gynnal yn gyson wrth i ddefnyddwyr Cymraeg bori drwy dudalennau GOV.UK.

Argymhelliad 4: Hafanau gwefannau ar GOV.UK

Mae'r gwaith arolygu wedi tynnu sylw at broblem benodol yn ymwneud â'r adrannau 'Y diweddaraf gennym' a 'Dogfennau' ar GOV.UK. Saesneg gan fwyaf yw cynnwys yr adrannau hyn, hyd yn oed ar hafanau Cymraeg. Dylid sicrhau fod cynnwys yr adrannau hyn yn ymddangos yn Gymraeg er mwyn sicrhau cysondeb â gweddill yr hafan Gymraeg.

Argymhelliad 5: Cynlluniau iaith newydd a diwygiedig

Dylai cynlluniau iaith newydd neu ddiwygiedig gynnwys adran benodol ar gynyddu a chryfhau'r cynnwys Cymraeg ar wefannau dros gyfnod y cynllun. Dylid cynnwys camau gweithredu clir, gydag amserlen briodol o fewn cynllun gweithredu'r cynllun iaith er mwyn sicrhau bod y gwelliannau hyn yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn fesuradwy.

6 Atodiadau

Atodiad A: Data'r arolwg

	Cyfanswm	Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn rhannol gyfartal	Ddim yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal
Cyfanswm y tudalennau a arolygwyd	304			
Tudalennau gwefan ar gael yn Gymraeg	210 (69% o'r cyfanswm)			
Tudalennau gwefan ar gael yn Gymraeg ar GOV.UK	154 allan o 193 tudalen a arolygwyd (80%)			
Tudalennau gwefan ar gael yn Gymraeg - gwefannau eu hunain	56 allan 111 tudalen a arolygwyd (50%)			
Tudalennau oedd ar gael yn Gymraeg				
Tudalennau yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	210	121 (58%)		89 (42%)
Tudalennau yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar GOV.UK	154	87 (56%)		67 (44%)
Tudalennau yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal – gwefannau eu hunain	56	34 (61%)		22 (39%)
Hafan gwefannau yn trin y Gymraeg a'r	21	2 (10%)	0	19 (90%)

Saesneg yn gyfartal				
Hafan gwefannau ar GOV.UK yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	13	0	0	13 (100%)
Hafan gwefannau eu hunain yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	8	2 (25%)	0	6 (75%)
Hunaniaeth gorfforaethol yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	304	96 (31%)	81 (27%) Heb unrhyw hunaniaeth gorfforaethol o gwbl	127 (42%)
Hunaniaeth gorfforaethol yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar GOV.UK	193	66 (34%)	81 (42%) Heb unrhyw hunaniaeth gorfforaethol o gwbl	46 (24%)
Hunaniaeth gorfforaethol yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal – gwefannau eu hunain	111	30 (27%)		81 (73%)
Dolenni yn mynd a'r defnyddiwr at wybodaeth Cymraeg	304	104 (34%)	57 (19%)	143 (47%)
Dolenni yn mynd a'r defnyddiwr at wybodaeth Cymraeg ar GOV.UK	193	67 (35%)	47 (24%)	79 (41%)
Dolenni yn mynd a'r defnyddiwr at wybodaeth	111	37 (33%)	10 (9%)	64 (58%)

Cymraeg – gwefannau eu hunain				
-------------------------------------	--	--	--	--

Atodiad B: Sefydliadau oedd yn rhan o'r arolwg

Adran Gwaith a Phensiynau
Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
Asiantaeth Safonau Bwyd
Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
Asiantaeth y Swyddfa Brisio
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Cofrestrfa Tir EF
Coleg Plismona
Comisiwn Apwyntiadau Barnwrol
Comisiwn Elusennau
Comisiwn y Gyfraith
Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol
Cyllid a Thollau EF
Gwasanaeth Arian a Phensiynau
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf
Gwasanaeth Eryl y Goron
Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EF
Gwasanaeth Prawf a Charchardai EF
Swyddfa Cymru
Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus
Tŷ'r Cwmnïau